



Cynllun Masnachu Teg ym maes Gwybodaeth

Ymrwymiad gan y Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:

Rydw i wedi ymrwymo'n bersonol i sicrhau ein bod yn masnachu gwybodaeth yn deg. I ddangos maint fy ymrwymiad, o fewn Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac i'n cwsmeriaid, rydw i wedi gofyn i'r Archifau Gwladol ddechrau'r broses o wirio bod y gwaith o drefnu a gwneud penderfyniadau yn Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn ategu'r ymrwymiad hwn.

Byddaf yn mynnu ein bod yn defnyddio system masnachu agored a thryloyw sy'n bodloni telerau'r Ddeddf Cystadleuaeth 1998. Fy nod yw y byddwn yn gallu, mewn egwyddor, ddiwallu anghenion unrhyw un sy'n ymgeisio am drwydded i ail-ddefnyddio gwybodaeth at unrhyw ddiben. Byddwn yn cyhoeddi unrhyw eithriadau ar ein gwefan ac yn eu dilyn yn glòs iawn.

Mae rôl masnachu gwybodaeth wedi'i hymgorffori i'n model busnes. Os ydym yn gosod prisiau, bydd y dulliau ar gyfer eu pennu (megis cynlluniau breindaliadau), yn cyd-fynd â rôl masnachu gwybodaeth yn y model busnes. Byddwn yn eu cyhoeddi ar ein gwefan ac yn eu dilyn yn glòs iawn. Bydd unrhyw eithriadau'n cael eu disgrifio'n llawn ar y wefan, a byddant ar gael i unrhyw un sy'n gymwys i'w derbyn.

Rydw i wedi ymrwymo i leihau cyn belled ag y bo modd y baich gweinyddol ar bobl sy'n ail-ddefnyddio gwybodaeth sector cyhoeddus. Byddaf yn sicrhau ein bod yn defnyddio prosesau ar gyfer masnachu gwybodaeth sy'n debyg i'r rhai a ddefnyddir yng ngweddill y sector.

Byddaf yn dweud wrth Reolwr HMSO am unrhyw gwynion yr ydw i'n eu derbyn sy'n honni bod fy sefydliad wedi torri'r ymrwymiad hwn, a byddaf yn

ymchwilio iddynt yn drwyadl. Os yw'r Archifau Gwladol yn penderfynu ymchwilio i gŵyn, byddaf yn caniatáu i'r tîm ymchwilio weld y staff a'r cofnodion perthnasol. Byddaf yn hysbysu'r Panel Ymgynghorol ar Wybodaeth y Sector Cyhoeddus am gwynion yn rheolaidd.

Imelda Richardson

Prif Arolygydd